Prosiect Gwyrdd
PROJECT GREEN

Cynhelir Digwyddiadau Cyhoeddus fis Hydref

Cynhelir digwyddiadau cyhoeddus gan y Bartneriaeth yn ystod mis Hydref i ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd wrth i'r broses gaffael ar gyfer y contract barhau.

Cynhelir 'Sesiynau Gwybodaeth Galw Heibio' i roi gwybodaeth i drigolion sy'n byw gerllaw'r safleoedd a gynigir gan y cwmnïau sydd wedi cyflwyno cynnig am y contract. Yn ardaloedd yr awdurdodau partner lle nad oes safleoedd wedi'u cynnig, cynhelir sioeau teithiol i barhau i roi'r cyfle i drigolion gael gwybod am y Prosiect yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u trefnu i sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn gallu bod yn bresennol a thrafod y broses gaffael â staff. Cynhelir y digwyddiadau canlynol:

- 3 Hydref: Sesiwn Galw Heibio yn Neuadd Bentref Llanwern, Llanwern. (11 am tan 2 pm)
- 6 Hydref: Sesiwn Galw Heibio yn Neuadd Bentref Llanwern, Llanwern (5 pm tan 8 pm)
- 11 Hydref: Sesiwn Galw Heibio yng Nghanolfan Gymunedol Fochriw, Fochriw (5 pm tan 8 pm)
- 13 Hydref: Sesiwn Galw Heibio yng Nghanolfan Gymunedol Dewi Sant, Tredelerch (11 am tan 2 pm)
- 15 Hydref: Sioe deithiol yn Sgwâr y Brenin y Barri, y Barri (10 am tan 4 pm)
- 18 Hydref: Sesiwn Galw Heibio yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd (11am tan 2 pm)
- 20 Hydref: Sesiwn Galw Heibio yng Nghanolfan Hamdden Star, Sblot (5 pm tan 8 pm)
- 22 Hydref: Sioe Deithiol yn Sgwâr Magor, Magor (10am tan 4 pm)

Mae'r Prosiect wrthi'n gwerthuso'r cynigion manwl a gyflwynwyd gan y tri chwmni sy'n cynnig am y contract. Yn dilyn y gwerthusiad hwn, mae'r Bartneriaeth yn rhagweld y bydd y ddau gynnig â'r sgôr uchaf yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses gaffael gyda chyhoeddiad cyhoeddus fis Rhagfyr eleni.

Cofion cynnes,

Prosiect Gwyrdd